# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 22 Mai 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(66)v3

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol). (5 munud)**

**NDM4890 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69(ii), sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

Gosodwyd Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) gerbron y Cynulliad ar 30 Ionawr 2012.

**Dogfen Ategol**
Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**4. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ: Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith i Gymru ar gyfer Twf a Swyddi (30 munud)**

**5. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Y Polisi Amaethyddol Cyffredin: Safbwynt Cymru (30 munud)**

**6. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Trefniadau newydd ar gyfer darparu cymorth gyda'r Dreth Gyngor yng Nghymru (30 munud)**

**7. Dadl ar ganlyniadau'r ymgynghoriad ar 'Adnoddau Naturiol Cymru' (60 munud)**

**NDM4891 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad 'Adnoddau Naturiol Cymru' ynghylch y cynnig i ddatblygu un corff i reoli adnoddau naturiol yng Nghymru.

Mae canlyniadau'r ymgynghoriad "Adnoddau Naturiol Cymru" ar gael drwy fynd i:

http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/singlebody/?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi sylw i bryderon y sector coedwigaeth a fynegwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod arbenigedd masnachol y sector coedwigaeth yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn nhrefniadaeth unrhyw un corff amgylcheddol newydd, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei adroddiad i'r achos busnes dros un corff amgylcheddol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ebrill 2012.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod yr achos busnes dros yr uno wedi'i gyhoeddi cyn ymgynghori ar nodau'r un corff amgylcheddol.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pryderon presennol sector coedwigaeth Cymru o ran creu'r un corff amgylcheddol.

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ail-archwilio prif nodau ac amcanion strategol yr un corff amgylcheddol er mwyn cael sicrwydd ac eglurder llwyr yn eu cylch.

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o arbenigedd masnachol yn y sefydliad newydd.

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o drefniadau diogelu yn yr un corff amgylcheddol petai gwrthdaro mewn buddiannau rhwng y tir y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno a'r trefniadau caniatáu ar gyfer prosiectau ynni ar y tir hwnnw.

**Cyfnod Pleidleisio**

**8. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM4889 Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth):**

Cyfranogaeth a grymuso yn nyfodol Gwasanaethau Gofal yng Nghymru - Mentrau Cydweithredol, Cwmnïau Cydfuddiannol a thaliadau uniongyrchol.

I drafod profiadau o ran taliadau uniongyrchol yn ogystal â modelau cydfuddiannol a chydweithredol ar gyfer gwasanaethau gofal yn dilyn adroddiad Scope "Unigoliaeth neu Gyfunoliaeth ym Maes Gofal: A all taliadau uniongyrchol helpu i greu cymunedau cryfach?"

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 23 Mai 2012